Golygfa Deg

Cloch drws yn canu a Rosie'n dod ar y llwyfan fel Swyddog Heddlu. Katy a Rosie'n meimio cael sgwrs, Chloe'n dod ar y llwyfan.

Chloe Helo Mam, 'dw'i adra

Mam Chloe Chloe?

Chloe (Edrych ar y swyddog) Mam? Be sy?

Mam Chloe Mae Rosie wedi bod yma, mae hi wedi deud bob dim wrtha'i.

Chloe Be' ti di neud?

Mam Chloe'n gwneud i Chloe eistedd i lawr. Chloe ddim yn gallu dweud dim

Swyddog Helo Chloe, P.C Owens 'dw'i o'r orsaf leol. Dwyt ti ddim mewn trwbl o gwbl. Mae dy fam wedi deud popeth wrtha'i, ond 'dw'i angen i ti ddeud wrtha'i be ddigwyddodd yn dy eiriau dy hun. Mi fedra'i ofyn i swyddog sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i ddelio efo pethau fel hyn i gysylltu efo chdi os wyt tisio - mi gei di bob help a chefnogaeth.

Mam Chloe Chloe cariad, plîs . ….

Chloe Mam, fedra'i ddim. Mae o'n fy ngharu i.

Mam Chloe Dydi o ddim yn dy garu di! Os 'di o wedi gwneud hyn i ti, meddylia am yr holl enethod eraill fydd' fo'n gallu gwneud yr un peth iddyn nhw. Plîs Chloe..... deud wrth y swyddog......i mi?

Chloe Ok Mam.